Cyngor Cymuned yn Neuadd Santes Ursula Mawrth 16 2017

Presennol : Margaret Lewis, Huw Griffith, Fred Jones, Peter Tandy, Lyn Davies, Morgan Morgans, Cynghorydd Rowland Rees Evans a'r clerc

Ymddiheuriadau : Jslwyn Jones, Dai Jones

Darllenwyd cofnodion Chwefror 16 2017 ac arwyddwyd eu bod yn gywir

Materion yn codi

1Cronfa gymunedol Llety'r Bugail. Derbyniwyd cytundeb oddi wrth pep renewables. Ar ôl ychwanegu cyfeiriad cyswllt y Cyngor, a'i arwyddo gan y Cadeirydd a'r is-gadeirydd roedd yn barod i'w ddychwelyd
2 Cyfraniad i Bethel. Cytunodd un o'r Cynghorwyr i fynd i siarad â pherchnogion y Capel cyn dod i benderfyniad
3 Anthony Morgan wedi ateb ei fod yn barod i weithredu fel archwiliwr mewnol.

Gohebiaeth
Derbyniwyd Apêl am arian oddi wrth Bobath Cymru – plant â cerebral palsy, Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Ceredigion, a Gofal mewn Galar. Rhain i'w rhoi nail ochr i'w hystyried y flwyddyn nesaf.
Derbyniwyd Clerks and Councils direct Mawrth, dogfennau yn ymwneud â Phwyllgor Rheoli Datblygu mis Mawrth – er gwybodaeth, dyddiadau cymorthfeydd Mark Williams i'w rhoi ar yr hysbysfwrdd, gwybodaeth am sesiwn cyfarwyddo darpar ymgeiswyr etholiadau lleol, a gwybodaeth am Raglen Drawsnewid y Bwrdd Iechyd.
Derbyniwyd hefyd wybodaeth am ail gyfnod ymgynghori yr Arolwg o Etholaethau Seneddol, hysbysiad am Weithdy Cymunedol ar Dlodi Tanwydd, Cofnodion Cyngor Ymgynghorol ac adroddiad blynyddol Panel Cydnabyddiaeth Ariannol.

Rhoddwyd sylw i'r Asesiad Risc ond gan nad oedd dim wedi newid ers y llynedd derbyniwyd bod popeth yn foddhaol.
Nid oedd dim newid yng Nghytundeb Cyflogi y clerc ar wahan i nodi mai Cadeirydd y flwyddyn flaenorol oedd yn gweithredu fel Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Ariannol
Derbyniwyd y ffurflenni angenrheidiol ar gyfer y cyfrifon ariannol blynyddol oddi wrth Grant Thornton. Mae'r gofynion ychwanegol eleni yn wahanol a bydd angen gofyn i'r archwiliwr mewnol am gyfarwyddyd gyda rhai ohonynt, yn ogystal â ffurflen diwedd blwyddyn HMRC.
Daeth gwybodaeth wrth y Cyngor Sir y byddant yn talu £1900 o'r praesept a £600 grant mynwentydd erbyn diwedd Ebrill a'r £950 sy'n weddill ddiwedd Hydref.
Llanwyd ffurflen hawlio ad-daliad TAW o £8.08.
Awdurdodwyd talu £26 i'r Neuadd a £32.50 i'r Capel am ddefnyddio ystafelloedd, a £59.06 i'r clerc am dreuliau clerigol
Arian yn y banc. £770.07 ond ar ôl talu'r uchod a'r sieciau sydd heb gyrraedd y banc hyd yn hyn, fe fydd £490.95 ar ôl.
Cyfrif rhif 2, ar ôl i'r sieciau sydd wedi cael eu talu allan fynd trwy'r banc bydd £4476.48 ar ôl

Unrhyw Fater Arall
Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Adran Ffyrdd yn Aberaeron i ofyn am wagio'r cattle grid tu draw i Troedyfoel, ac edrych ar gyflwr y draeniau wrth Gapel Bethel.
Tynnwyd sylw at y ffaith fod peiriannau cegin megis peiriant golchi ayyb wedi eu gadael wrth fynedfa'r goedwig ger croesffordd Tynllwyn. Cytunodd Huw Griffith i gysylltu â NRW ynghlyn â'u symud.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Ebrill 20fed